CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced

559/51

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 9

## Crefydd a'r Profiad Dynol

A.M. DYDD LLUN, 26 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**Ni chaniateir defnyddio Beibl yn yr arholiad hwn.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 50 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**1. Awdurdod Crefyddol**

Mae'n rhaid i chi ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ysgrifau sanctaidd fel awdurdod crefyddol o **ddau** faes astudiaeth gwahanol **o leiaf** a gallu penderfynu beth yw arwyddocâd ysgrifau sanctaidd fel awdurdod o'r fath, o'i gymharu ag awdurdod arweinwyr crefyddol.

*(a)* Eglurwch natur a rôl ysgrifau sanctaidd fel ffynhonnell awdurdod i gredinwyr crefyddol. [30]

*(b)* 'Mae awdurdod ysgrifau sanctaidd yn llai pwysig nag awdurdod arweinwyr crefyddol yng nghrefydd yr unfed ganrif ar hugain.'
Gwerthuswch ddilysrwydd yr honiad hwn. [20]

**2. Profiad Crefyddol**

Mae'n rhaid i chi ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ffurfiau ar brofiad crefyddol o **ddau** faes astudiaeth gwahanol **o leiaf** a gallu asesu a yw profiadau crefyddol yn fwy ystyrlon ac awdurdodol ym mywydau credinwyr crefyddol nag agweddau eraill ar grefydd a bywyd.

*(a)* Gan ddefnyddio enghreifftiau, eglurwch wahanol fathau o brofiad crefyddol. [30]

*(b)* 'Mae profiadau crefyddol, yn fwy na dim byd arall, yn rhoi ystyr ac arweiniad arwyddocaol i fywydau credinwyr crefyddol.'
Gwerthuswch ddilysrwydd yr honiad hwn. [20]

**3. Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl Marwolaeth**

Mae'n rhaid i chi ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gredoau am fywyd ar ôl marwolaeth o **ddau** faes astudiaeth gwahanol **o leiaf** a gallu asesu pa mor bwysig i grefydd yw credu bod yr unigolyn yn goroesi ar ôl marwolaeth.

*(a)* Eglurwch rai credoau am fywyd ar ôl marwolaeth. [30]

*(b)* 'Mae credu mewn anfarwoldeb personol yn hanfodol i grefydd.'
Gwerthuswch yr honiad hwn. [20]